# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)19-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 22 Mehefin 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Eraill yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### BC(3)18-10 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 15 Mehefin 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)19-10(p1)

3.1 Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Gweinidog dros Fusnes y caiff y datganiad a ganlyn ei thraddodi yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 23 Mehefin 2010:

Y Dirprwy Weinidog dros y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio: y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Cynaliadawy (30 munud)

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na chaiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn 17.00 ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor y drefn busnes ar gyfer 22 a 23 Mehefin 2010

#### Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)19-10(p2)

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)19-10(p3)

3.7 Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Cynulliad.

### 4. Deddfwriaeth

#### (i) Gweddill y Rhaglen Ddeddfwriaethol - BC(3)19-10(p4)

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur ar yr opsiynau sydd ar gael i reoli gweddill y rhaglen ddeddfwriaethol yn y Trydydd Cynulliad. Cytunodd y rheolwyr busnes i drafod yr opsiynau â'u pleidiau.

### 5. Pwyllgorau

#### (i) Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: recriwtio Archwilydd Cyffredinol Cymru a chynnal gwrandawiad cyn penodi

**Llythyr gan y Cadeirydd - BC(3)19-10(p5)**

**Cais am gyfarfod ychwanegol - BC(3)19-10(p6)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnal gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi ddydd Llun 28 Mehefin 2010, fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i fabwysiadu dull newydd o fynd i'r afael â phenodi Archwilydd Cyffredinol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**